



Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod Cyngor Llawn Nos Iau 9fed o Fawrth 2023 yng Nghanolfan Gymunedol Penrhosgarnedd am 7.00 y.h

Agenda

1. Presennol:

2. Ymddiheuriadau:

3. Datgan buddiant

4. Derbyn Cofnodion 9fed o Chwefror

5. Materion yn codi

6. Materion ariannol

i. Mantolen ariannol

ii. Archwyllo Allannol

1. Costau archwyllo 2019-20 a 20-21

iii. Cofnodion cyfarfodydd IBC 22/02/2023

7. Cynllunio

C23/0153/25/LL Vaynol Arms, Pentir, Bangor, Gwynedd, LL57 4EA

Newid defnydd llawr gwaelod o dafarn i unedau gwyliau gosod

8. Materion y Clerc

- Hysbysebu Sedd Wag / Cyfethol
- Ganolfan newydd
 - Unrhyw ddiweddariad
- Ganolfan bresennol
 - Costau adnewyddu/uwchraddio
- Capel y Fynwent
 - Gwaith Saer
 - Paentio
 - Gwaith trydannol
 - Amcanbris goleuadau newydd
- Cysgodfannau Bws
 - Cyngor gwynedd - ymateb wedi ei dderbyn
 - Dosbarthu llythyrau i'r Trigolion agosaf
- Cynllun Hyfforddiant
 - Ffurflenni Cynllun Dysgu Cyngorwyr
 - Disgwyl 3 ffurflen asesu
- Cais y brynu beddi yn y Fynwent newydd
- Adroddiad Adran 6 Bioamrywiaeth
- Prisiau Torri'r Fynwent - D W Lewis
- Costau Blynnyddol y Clerc

9. Materion y Cyngorwyr



Cyngor Cymuned Pentir

Cofnodion cyfarfod Cyngor Llawn Nos Iau 9fed o Chwefror 2023 gynhalwyd yng Nghanolfan Gymunedol Penrhosgarnedd am 7.00 y.h

- 1. Presennol:** Cyng M Lynch – Cadeirydd. Cyng L A James; Cyng J Lewis, Cyng B Jones, Cyng M Baines, Cyng I Ellis, Cyng A Joyce; Cyng C W Owen, Howard Huws (Cyfieithydd) a'r Clerc E Jones
- 2. Ymddiheuriadau** Cyng D Jones-Morris; Cyng J Pierce, Cyng D W Jones; Cyng Dafydd Meurig
Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd ag yn enwedig felly Howard Huws oedd yn dirprwyo yn lle Sioned E Jones i gyfieithu ar y pryd
- 3. Datgan buddiant** Cynghorwyr L A James, A Joyce, a M Baines yn datgan buddiant ar 8 gan eu bod yn aelodau o Bwyllgor Rheoli'r Ganolfan bresennol
- 4. Derbyn Cofnodion 14eg o Ionawr**
Cynnigwyd eu bod yn gofnodion cywir gan y Cyng L A James ag eilwyd gan y Cyng C W Owen
- 5. Materion yn codi**
Diffib Treborth wedi ei ddychwelyd ar ol cael nodyn i ddweud fod rhywun wedi bod yn ei nol. Atgoffwyd y cynghorwyr fod angen dychwelyd eu ffurflenni hunan asesiad fel y gellir paratoi y Cynllun Hyfforddiant Rheoli y Ganolfan Newydd
Yn sgil y trafferthion symud i'r Ganolfan Newydd mae cyflwr y Ganolfan bresennol wedi dirywio yn arw a gwir angen sylw erbyn hyn. Offer trydannol angen eu Pat Testio a.y.y.b
Cyfarfod Blynyddol y Ganolfan dal heb i'w drefnu i drafod y ffordd ymlaen a hitha bron yn ddiwedd blwyddyn ariannol arall
Rhaid bellach dwyn pwysa i gael hyn i ddigwydd
Cytunwyd dal i gynnwys y mater fel rhan o'r agenda misol
Llwybr Lodge - dim ymateb wedi ei dderbyn i gadarnhau un ffordd na'r llall
Panel Hanesyddol Cyng J L am wneud ymholiadau drwy Parchu pentir ynglyn a lleoliad a holi ynglyn a chostau
- 6. Materion ariannol**
'Roedd cofnodion Is-Bwyllgor Cyllid 25ain o Ionawr ynhyd a mantolen ariannol wedi ei rhannu yn dangos y gwariant a derbyniadau. Nodwyd fod £38,712.72 yn y cyfrif cyfredol ddiwedd Ionawr a £45,125.79 yn y Cyfrif Cadw yn dilyn derbyn llog Rhag£61.42
Archwyllo Allannol
Dim diweddariad o'r Swyddfa Archwyllo Cymru am adroddiad derfynol am 2021-22
- 7. Ceisiadau Cynllunio**
'Roedd y ceisiadau oedd gerbron yn digwydd bod ar ein ffin ond y tu allan i'n ffin.
Trafodwyd y byddaidatblygiad Coed y Wern Glasinfryn yn cael effaith a'r Glasinfryn ei hun oherwydd gor-ddatblygu ag i ni felly ddal i fod yn gwrthwynebu



Cyngor Cymuned Pentir

Dim gwrthwynebiad i gais Harveys ond sylw y byddai ychwanegu goleuadau yn niweidiol i'r amgylchedd ag o bosib y byddai cynydd mewn cerbydau

8. Materion y Clerc

- Hysbysebu Sedd Wag / Cyfethol

Yn unol a beth drafodwyd fis yn ol 'roedd y Clerc wedi gwneud ymholiadau hefo'r swyddfa etholiad Cyngor Gwynedd i ddarganfod beth oedd rhainad y Cyngorwyr presennol.

Dim ond ar amser etholiad mae'r swyddfa yn nodi ward yr ymgeiswyr a mater i'r Cyngor Cymuned wedyn yw ceisio llenwi'r seddi gwag orau galla nhw.

Amser yr Etholiad 'roedd 6 ymgeisydd i Ward faenol a 3 i ward Glasinfryn

Fis Mehefin daeth 3 enw ymlaen i'w cyfethol i Cyngor Pentir (seddi gwag yn y 2 ward) a cyfetholwyd y 3 oedd yn digwydd bod yn byw ar ward Faenol penodwyd y 3 ond ddim i unrhyw ward benodol.

Rhaniaid cywir Cyngor Cymuned Pentir o ran wardiau ydi 8 Cyngorydd i Ward Faenol a 4 i Ward Glasinfryn.

O ganlyniad bydd y Sedd wag yn cael ei hysbysebu fel sedd Ward Glasinfryn

Byddwn yn dilyn y drefn briodol o hysbysebu'r sedd yn gyhoeddus am 14 diwrnod

Os daw cais ysgrifenedig at Swyddog Canlyniadau Gwynedd gan 10 o etholwyr ward am etholiad bydd rhaid cynnal etholiad.

Yn dilyn y 14 diwrnod mae hawl gan y Cyngor wedyn i gyfethol a gwahodd enwau ymlaen am 14 diwrnod pellach cyn penodi

- Cyfarfod Pwyllgor Canolfan Glasinfryn Nos Lun 16-01-23 am 7.00y.h

Adroddodd y Clerc iddo fynychu ag mae gwan iawn oedd y gefnogaeth i'r pwyllgor mysg y trigolion ag y byddai'n fanteisiol iawn i'r ganolfan os gellir deny Cyngorydd Cymuned o blith trigolion y gymuned fel y gallai y cyngorydd hwnnw/honno fynychu cyfarfodydd y ganolfan

- Ganolfan newydd
 - Unrhyw ddiweddariad

Dal dim cytundeb wedi ei gyrraedd rhwng yr Eglwys a'r Cyngor Gwynedd parthed y Ganolfan newydd

'Roedd cyfarfod wedi pasio i godi capasiti yr Ysgol i 315 er nad yw'r nifer rwan nac yn Mis Medi yn debygol o fod yn hynny.

Er gwaetha hynny lleisiwyd gwrthwynebiad cryf i'r ffaith fod staff yr Ysgol bellach yn parcio ar faes parcio ein canolfan ni a hynny yn achosi problemau dirfawr i ddefnyddwyr y Ganolfan ag yn anodd marchnata ein adnodd oherwydd y diffyg llefydd i barcio.

Clerc wedi cysylltu a'n cyfreithwyr a hwythau ynn eu tro wedi anfon e-bost ynglyn a defnydd y maes-parcio at Swyddogion Cyngor Gwynedd

Dim ymateb wedi ei dderbyn

- Rheoli **Gweler materion yn codi**
 - Cae Chwarae Caerhun

Cwmni G L Jones Bethesda wedi cysylltu i dderbyn y gwaith ond na fyddai nhw mewn sefyllfa i gychwyn y gwaith tan o bosib Mis Mai eleni

- Capel y Fynwent

Mr G Hughes o Hughes & Hughes wedi cychwyn ar y gwaith o dynnu'r seddi a bellach wedi darganfod mae gwagle sydd o dan y llawr pren.

Gwagle fydd angen ei gau rhywbryd a hynny o bosib y llawr cyfan o bopty'r llwybr canol

Gofyn i Mr Hughes am amcanbris hynny a amcanbris paentio'r nenfwd tra bydd sgaffold yna



Cyngor Cymuned Pentir

- Trydannol

Gwaith gosod 2 wresogydd newydd a gosod 'switch' arferol ar eu cyfer wedi ei wneud

- Gan fod goleuadau'r Capel yn hongian o'r nenfwd bydd angen ei tynnu a'i ail osod – os yn bosib yn is na'r lampau presennol fel bod posib ei cyrraedd heb fod angen scaffold

Gofyn i'r trydanwr am amcanbris a prisio lampau LED fydd yn rhatach i'w rhedeg

- Cysgodfannau Bws
 - Dyfnbris Bellach wedi derbyn 2 bris
 - Penderfyniad

Y

Clerc yn ymgynghori hefo Cyngor Gwynedd i drefnu cyfarfod safle

Hefyd llythyr wedi ei baratoi i ymgynghori hefo trigolion cyfagos

- Cynllun Hyfforddiant
 - Ffurflenni Cynllun Dysgu Cyngorwyr

Rhai Cyngorwyr wedi ddychwelyd eu ffurflenni asesiad wedi ail anfon i'r rhai oedd heb wneud a'i gwahodd i anfon at y Clerc yn electronig neu yn ysgrifenedig

- Adroddiad Adran 6 Bioamrywiaeth

E-bost wedi ei rannu fod angen adolygiad o'r adroddiad ddarparwyd gennym ar Adran 6 a'i bod i fod wedi ei chwblhau ers mis Rhagfyr

- Goleuadau ar Ffordd Menai/Allt dywyll

Y Clerc wedi holi adran drydannol gwynedd yn holi os oedd unrhyw ddatblygiad wedi digwydd ers i'r adran drafnidiaeth wneud ymholiad a chael cynnig dod i gyfarfod a'r Is Bwyllgor Cyllid i drafod gosod lampau stryd ar ffordd Menai. Adran Drydannol heb glywed dim Clerc i gysylltu nol a'r adran traffig

9. Materion y Cyngorwyr

a. **Cyng A Joyce** -

Ychwanegu biniau baw cwn - Oes posib holi am finiau baw cwn ychwanegol rhwng Capel Graig a Pont dros yr A55 gan fod cerddwyr cwn yn casglu y baw ac yna yn ei luchio i'r gwrychoedd **Clerc i Holi Adeiladu heb ganiatad** Adroddodd y Cyngorwyr fod gwaith adeiladu heb ganiatad yn mynd ymlaen y Ffordd Ty'n Clwt a'i fod eisioes wedi cysylltu a'r adran gynllunio ynglyn a'r mater ond heb gael ateb **Clerc i holi ymhellach**

Gwefan y Cyngor Adroddodd fod y Wefan angen sylw am fod y Newyddion arni yn hen

b. Cyng M Baines

Gwefan y Cyngor Adroddodd ei bod wedi cael cwyn gan aelod o'r gymuned oedd yn gyn-gynghorydd yn adrodd fod y Wefan angen ei adnewyddu o hen Newyddion

Hysbysfyrdau Yr un person wedi cyfeirio nad oedd fawr o ddefnydd yn cael ei wneud o'r hysbysfyrdau

Nodwyd fod unigiolion hefo goriadau i'r Hysbysfyrdau i fedru gwneud defnydd cymunedol ohonynt cyn belled a bod rheini wedyn yn cael eu tynnu ar ol y digwyddiad. Nodwyd fod rhai hysbysfyrdau yn cael defnydd cymunedol da a rheolaidd.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.15